

Tasg 2

A dyma’r newyddion ...

Braich mewn crocodeil

Ionawr 2016

Roedd Karen Prior, 68 oed, yn eistedd wrth afon Three Mile Creek, Gorllewin Awstralia.

Yn sydyn, neidiodd crocodeil o’r dŵr a gafael yn ei braich.

Torrodd y crocodeil y fraich i ffwrdd. Rhedodd Karen o’r afon. Rhedodd hi i’r ffordd a daeth car i fyny’r ffordd. Stopiodd y car a dwedodd y gyrrwr, “Brysia – i mewn i’r car! Rhaid mynd i’r ysbyty.”

“Na, dw i’n gwaedu,” dwedodd Karen. “Bydd gwaed yn y car.”

“Dim ots!” dwedodd y dyn. Aeth Karen i mewn i’r car a gyrrodd y dyn hi i’r ysbyty.

Chwilio am y crocodeil

Yna, aeth pobl allan i chwilio am y crocodeil.

Ffeindion nhw fe. Lladdon nhw fe. Agoron nhw’r crocodeil. Beth oedd yn stumog y crocodeil? Braich a llaw Karen Prior.

Aethon nhw â’r fraich i’r ysbyty. Pwythodd y doctoriaid fraich a llaw Karen Prior ’nôl.



1. Beth ydy’r darn yma?

- a. e-bost
- b. tecst
- c. llythyr
- ch. erthygl


Rhowch reswm dros eich ateb.

2. Chwiliwch am y berfau sy’n gorffen gyda –odd.

Ysgrifennwch nhw mewn grid yn eich llyfrau chi ac ysgrifennwch y geiriau Saesneg wrth ochr y geiriau Cymraeg, e.e.

Cymraeg	Saesneg
neidiodd crocodeil	a crocodile jumped

Geirfa	
erthygl	article



3. Chwiliwch am y berfau sy'n gorffen gyda **-on nhw**.
Ysgrifennwch nhw mewn grid yn eich llyfrau chi ac ysgrifennwch y geiriau Saesneg wrth ochr y geiriau Cymraeg, e.e.

Cymraeg	Saesneg
ffeindion nhw	they found

Fel arfer, i siarad am berson arall neu bobl eraill, rydyn ni'n defnyddio

– **odd**

– **on**

roedd (e.e. roedd y dyn yn ...)

Mae'n bosib defnyddio **-ais** hefyd mewn deialog, e.e.

Roedd Peter Pryce yn cerdded adre. Roedd hi'n noson braf. Yn sydyn, clywodd e sŵn tu ôl iddo fe. "Clywais i sŵn traed," dwedodd Peter. "Edrychais i tu ôl i fi a gwelais i ..."

4. Ysgrifennwch am ddigwyddiad yn y gorffennol – digwyddiad real neu ffug, e.e. erthygl, stori, darn ffeithiol.

Yna, ar ôl gorffen, darllenwch y darn i'r grŵp.
Bydd y grŵp yn dyfalu ydy'r darn yn wir neu'n ffug.

Geirfa	
tu ôl iddo fe	behind him
digwyddiad yn y gorffennol	event, something that happened in the past
ffug	false
darn ffeithiol	factual piece
dyfalu	to guess